



CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF
COUNTY BOROUGH COUNCIL

GWŶS I GYFARFOD PWYLLGOR

C Hanagan
Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau
Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach, CF40 2XX

Dolen gyswllt: Hannah Williams - Uned Busnes y Cyngor - Gwasanaethau Llywodraethol
(01443 424062)

Bydd cyfarfod o'r **Pwyllgor Trwyddedu** yn cael ei gynnal yn **Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypanyd CF40 2XX** ar **DYDD MAWRTH, 10FED MEDI, 2019** am **5.00 PM**.

MAE MODD I AELODAU O'R CYHOEDD OFYN I ANNERCH Y PWYLLGOR YN YSTOD CYFARFOD SY'N YMWNEUD Â'R MATER SYDD WEDI'I NODI.

RYDYN NI'N GOFYN EICH BOD CHI'N RHOI GWYBOD AM EICH BWRIAD I SIARAD DRWY GYSYLLTU AG UWCHADRAN TRWYDDEDU, TŶ ELÁI, DWYRAIN DINAS ISAF, TREWILIAM, CF40 1NY ERBYN **5PM** AR **Dydd Gwener, 6 Medi 2019**, GAN NODI A FYDDWCH CHI'N SIARAD YN GYMRAEG NEU'N SAESNEG.

AGENDA

1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.

Noder:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2. DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A'R DDEDDF TROSEDD AC ANHREFN

I'w nodi: Pan fydd Aelodau'n ystyried y materion trwyddedu a chofrestru sydd ger eu bron, mae dyletswydd arnyd nhw i beidio â gweithredu mewn modd sy'n anghydnaws â'r confensiwn ar Hawliau Dynol a'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn.

3. COFNODION

Cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd 29 Gorffennaf 2019.

5 - 8

4. YSTYRIED TRWYDDEDAU A CHOFRESTRIADAU A GYHOEDDWDYD O DAN DDARPARIAETH PWERAU DIRPRWYEDIG AR GYFER Y CYFNOD: 15.07.19 - 25.08.19

- (i) Trwyddedu Anifeiliaid
- (ii) Tyllu'r Croen a Thatŵo (Safle)
- (iii) Tyllu'r Croen a Thatŵo (Personol)

9 - 16

5. TRAFOD CADARNHAU'R CYNNIG ISOD YN BENDERFYNIAD

"Bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf."

ADRODDIADAU'R CYFARWYDDWR MATERION IECHYD A DIOGELWCH Y CYHOEDD A GWASANAETHAU CYMUNED SY'N CYNNWYS GWYBODAETH EITHRIEDIG

6. CRYNODEB GORFODI (GAN GYNWYS DATA APELIADAU/ERLYNIADAU) AR GYFER Y CYFNOD: 21.07.19 - 30.08.19

17 - 22

7. CRYNODEB O'R TRWYDDEDAU A GYHOEDDWDYD O DAN DDARPARIAETH AWDURDOD DIRPRWYEDIG AR GYFER Y CYFNOD: 15.07.19 - 25.08.19

- (i) Trwyddedau gyrru ar y cyd – Cerbyd Hacni / Cerbyd Hurio Preifat
- (ii) Trwyddedau Cerbyd Hacni
- (iii) Trwyddedau Cerbyd Hurio Preifat
- (iv) Trwyddedau Gweithredwyr Hurio Preifat

23 - 48

8. BUSNES BRYD

Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn faterion brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu

Cylchrediad:-

Aelodau o'r Pwyllgor Trwyddedu:

Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu
(Y Cynghorydd A Fox ac Y Cynghorydd D Williams)

Y Cynghorydd S Bradwick, Y Cynghorydd S Powderhill, Y Cynghorydd E Webster,
Y Cynghorydd T Williams, Y Cynghorydd W Lewis, Y Cynghorydd S Morgans,
Y Cynghorydd A Cox, Y Cynghorydd P Howe ac Y Cynghorydd L Jones

Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned.
Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Diogelwch y Cyhoedd
Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyfreithiol
Rheolwr Cymunedau Diogel a Phartneriaethau Strategol
Rheolwr Gwasanaeth Trwyddedu a Diogelu Iechyd
Swyddog Gorfodi Trwyddedu
Rheolwr trwyddedu Cynorthwyol
Swyddog Gorfodi Trwyddedu